



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Cynllun Gweithredol 2020/21



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

CYNNWYS

	Tud
1 Rhagair	3
2 Amcanion a Swyddogaethau Craidd y Cyngor Llyfrau	6
3 Amcanion Llywodraeth Cymru	7
4 Gweithio mewn Partneriaeth	8
5 Prif-ffrydio	12
6 Rheoli Risg	13
7 Ymchwil a Gwerthuso	14
8 Rhaglen Waith y Cyngor yn 2020/21	15
9 Pa adnoddau fydd ar gael	22
10 Targedau allweddol	23
11 ATODIADAU	
1 Cyllideb 2020/21	26
2 Dadansoddiad o'r Costau 2020/21	27
3 Grantiau Cyhoeddi 2020/21	28
4 System TG: Amserlen	29

1 Rhagair

Lluniwyd ein Cynllun Gweithredol, sy'n nodi'r rhaglen weithgaredd yn ystod 2020/2021, ei ddrafftio cyn deall yn iawn effaith lawn argyfwng y Coronafeirws. Mae ein holl weithgaredd wedi'i aildrefnu yn y tymor byr i ganolig er mwyn ymateb i'r argyfwng ac i sicrhau ein bod yn cefnogi'r sector drwy'r amseroedd hynod heriol hyn. Dim ond pan fydd y sefyllfa frys a grëwyd gan y feirws wedi diflannu y byddwn ni fel sefydliad yn gallu dychwelyd at gyflawni'r Cynllun Gweithredol hwn. Gan na fydd y sefyllfa ar hyn o bryd yn hysbys, rydym yn bwriadu ailedrych ar ba gamau y mae modd, ac y dylid, eu datblygu a pha gamau newydd y mae angen i'r Cyngor Llyfrau eu cymryd i sicrhau bod twf a ffyniant yn dychwelyd i'r sector cyhoeddi yng Nghymru. Byddwn yn monitro'r datblygiadau'n ofalus wrth barhau i wneud pob ymdrech i ddiogelu'r diwydiant llyfrau yng Nghymru, ein staff a'n gwirfoddolwyr.

Mae'n destun hyfrydwch a balchder fod Cymru Greadigol yn nodi bod *“diwydiant cyhoeddi iach yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru; drwy ein cefnogaeth i Gyngor Llyfrau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau hanfodol ar gyfer y diwydiant cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg”*. Mae'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn ein galluogi i barhau i gefnogi ein cenhadaeth a'n gweithgareddau craidd megis:

- cyfrannu at yr amcanion Lles fel yr amlinellir hwy yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: **Ffyniant i Bawb**
- cefnogi tri philer y **Strategaeth Ryngwladol (2020)** – Creadigedd, Cynaliadwyedd a Thechnoleg – a chyfrannu cynnwys i **Dyma Gymru**
- cefnogi **Cwricwlwm i Gymru 2022 drwy**
 - **ymgysylltu'n rhagweithiol â Meysydd Dysgu a fydd yn elwa o gynnwys hamdden wedi'i gefnogi gan ein system grantiau**
 - **gynnig trosolwg cyfannol o'r anoddau sydd ar gael a chynorthwyo i ddatblygu strategaethau i leihau'r ddibyniaeth ar gyhoeddwyr Saesneg**
 - rhedeg rhaglenni i gefnogi'r **Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol** ac amcanion y **Strategaeth Tlodi Plant**
- parhau i gefnogi **Cymraeg 2050** trwy gydweithio'n agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chefnogi cynlluniau penodol megis:
 - **y Siarter Iaith**
 - **Cymraeg Campus**
- Cyflenwi a hyrwyddo'r rhaglen **Darllen yn Well** a thrwy hynny gyfrannu at y Cynllun Gweithredu 2019–2020, **'Mwy na Geiriau'**, a'r Cynllun Cyflawni 2019–22, **'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'**.

O'r cychwyn cyntaf, prif bwrpas ein grantiau fu datblygu a chefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'r cyllid rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn galluogi nid yn unig y gwaith o gynhyrchu ystod eang o lyfrau a chylchgronau poblogaidd ac amrywiol yn y ddwy iaith, mae hefyd yn cefnogi 29 o swyddi golygyddol a marchnata mewn busnesau bach drwy Gymru benbaladr. Mae meithrin talent drwy ein hymgysylltiad strategol hefyd yn ein galluogi i weithredu ymhellach ar argymhellion adroddiad Dr Siwan Rosser, *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol (2017)*¹, yn ogystal â mynd i'r afael â meysydd penodol megis adnoddau ar gyfer dysgwyr, darluniau gwreiddiol mewn llyfrau Cymraeg i blant, technolegau digidol megis realiti estynedig (AR), a llyfrau sain digidol yn yr iaith Gymraeg. Oherwydd natur ddeinamig ein diwydiant, rydym yn edrych ymlaen at gefnogi mentrau newydd, arloesol, yn ystod y flwyddyn ariannol hon; hefyd, mewn

¹ <http://llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>

cydweithrediad â Busnes Cymru a sefydliadau perthnasol eraill, byddwn yn darparu hyfforddiant a chynadleddau gyda'r nod o wneud y sector cyfan yn fwy gwydn.

Yn 2019 dyfarnodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad sylweddol i'n galluogi i adnewyddu ein systemau dosbarthu a warws, yn ogystal â gwales.com, ein system archebu ar-lein, ac eleni bydd y cyfnod gweithredu o ddwy flynedd yn cychwyn. Mae hwn yn gyfle unigryw i arloesi ac ymateb i'r newidiadau cyflym yn y maes digidol sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ein diwydiant. Bydd y buddsoddiad yn trawsnewid cyrhaeddiad a mynediad i'r farchnad yn achos cyhoeddwr a llyfrwerthwyr annibynnol, gan wneud cyfraniad sylweddol i economi sylfaenol a gwledig Cymru. Y cam hollbwysig cyntaf fydd sicrhau'r arbenigedd angenrheidiol trwy benodi rheolwr prosiect profiadol, cyn symud ymlaen i lunio tendr ar gyfer y system newydd. Byddwn yn ymgynghori â chleientiaid (cyhoeddwr a manwerthwyr) i sicrhau bod y fanyleb newydd yn mynd i'r afael â'u prif bryderon a'r meysydd i'w gwella, yn ogystal â'n hanghenion ni ein hunain o ran swyddogaethau.

Cyn gynted ag y bydd y system graidd wedi ei dewis, byddwn yn dechrau paratoi ar gyfer disodli gwales.com. Gan fod y system hon yn cael ei defnyddio'n eang – nid yn unig gan unigolion, ond hefyd gan ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau eraill – rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad parthed swyddogaethau yn fwy eang er mwyn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol. Telir sylw arbennig i'r potensial o ran arddangos yn rhyngwladol ac integreiddio gyda phlatfformau eraill sy'n bodoli eisoes.

Byddwn yn parhau i gyfrannu i'r Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Ryngwladol ac, fel arweinydd y sector, byddwn yn cydweithio ag eraill i gynnig strategaeth 5 mlynedd i gynyddu'r cyfleoedd arddangos rhyngwladol ar gyfer cyhoeddwr ac awduron mewn marchnadoedd allweddol i gefnogi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae ysgrifennu a llenyddiaeth, yn eu hanfod, wrth galon diplomyddiaeth ddiwylliannol, ac yn arddangos Cymru fel cenedl ddwyieithog, ffyniannus a chanddi dreftadaeth lenyddol hir a chyfoethog sydd lawn cystal â chenhedloedd eraill yn Ewrop, a'r rheiny'n aml yn fwy o faint. Rydym yn falch iawn o'r cyfle i gyfrannu ein gwybodaeth o'r sector a'n harbenigedd sylweddol wrth weithio'n rhyngwladol.

Mae ysgolion a llyfrgelloedd yn parhau i fod yn ganolog i ecosystem y sector llyfrau, fel partneriaid yn y gweithgareddau hyrwyddo darllen ac fel cwsmeriaid sefydliadol pwysig yn ein siopau llyfrau annibynnol. Bydd ein pum cynrychiolydd rhanbarthol yn parhau i estyn cymorth i athrawon a llyfrgellwyr, gan eu tywys drwy'r cyfoeth o adnoddau sydd ar gael a sicrhau eu bod yn gallu gwneud dewisiadau effeithiol tra ar yr un pryd yn rheoli cyllidebau tyn. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei ategu ymhellach gan ein tîm o arbenigwyr llyfrau plant, a fydd yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion i greu deunyddiau cymorth sy'n ymateb i brif bynciau ac anghenion ysgolion, yn ogystal â rhedeg ystod helaeth o raglenni sy'n cefnogi darllen er mwyn pleser.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyd-weithwyr yn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd, yn ogystal â chynnig atebion ymarferol a strwythurau i wireddu'r amcanion hynny. Bydd ein gallu i gymryd trosolwg o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes o'u cymharu ag anghenion y cwricwlwm newydd, tra ar yr un pryd yn asesu sgiliau ac anghenion y darparwyr gwasanaeth, yn caniatáu i ni wneud cyfraniad sylweddol, strategol a hir-dymor a fydd o fudd i Gymru gyfan maes o law.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2019/20, bydd y set olaf o deitlau yn y rhaglen Darllen yn Well wedi cael eu cyhoeddi; bydd digon o gyfleoedd i hyrwyddo'r teitlau diweddaraf yn y rhestr o lyfrau lechyd Meddwl ar gyfer Oedolion, ac i barhau i godi proffil y rhestr o

lyfrau ar Dementia. Rydym yn bwriadu cryfhau ein cydweithrediad gydag elusennau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd rhanbarthol, a pharhau i gyfrannu at y gwaith o wella Iechyd a Lles yn ein cymunedau.

Gan y byddwn ym mlwyddyn olaf ein Cynllun Strategol cyfredol (2016–2021), byddwn yn drafftio gweledigaeth newydd a fydd yn mapio ein huchelgeisiau i'r dyfodol. Byddwn yn adolygu strwythurau llywodraethol ein sefydliad, yn ogystal â chyfansoddiad a sgiliau ein pwyllgor gwaith, gan ychwanegu arbenigedd lle bo angen. Trafodir strategaeth ddrafft yn ein cyfarfod blynyddol yn haf 2020, a dilynir hynny gan gyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o lansio'r cynllun strategol newydd yn gynnar yn 2021. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i bwysu ar y nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n mynychu ein panelau ac sy'n rhoi mor hael o'u hamser, eu hegri a'u harbenigedd. Hebddynt hwy, ni fyddai modd i ni gyflawni ein hamcanion – ac mae hynny'n arbennig o wir am y Prif Swyddogion rydym yn dibynnu arnynt yn rheolaidd am gymorth. Yn olaf, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r holl staff – eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'u cadernid hwy sydd wrth galon yr elusen hon, ac mae eu hymgysylltiad â sector sy'n newid yn barhaus yn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

2 Amcanion a Swyddogaethau Craidd y Cyngor Llyfrau

Paratowyd y Cynllun Gweithredol hwn yn unol â phrif amcanion y Cyngor fel y nodir hwy yn y Cyfansoddiad.

Amcanion y Cyngor yn ôl ei Gyfansoddiad yw:

hybu, cefnogi a datblygu gwerthfawrogiad a diddordeb y cyhoedd mewn llenyddiaeth . . .
[trwy]

- a) gefnogi a chynorthwyo awduron ac addaswyr drwy roi grantiau a thrwy ddulliau eraill;
- b) cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunyddiau llenyddol ac artistig eraill, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau sy'n hysbys neu trwy ddulliau sydd hyd yn hyn yn anhysbys), yn Gymraeg neu'n ymwneud â Chymru;
- c) trefnu a chynnal arddangosfeydd o'r cyfryw lyfrau a deunyddiau eraill;
- ch) cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunyddiau eraill yng Nghymru.

Swyddogaethau Craidd

Mae llawer o waith y Cyngor yn ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol i'r fasnach gyhoeddi ac, yn anochel felly, nid cynlluniau tymor-byr mohonynt. Rhestrir isod y swyddogaethau craidd sy'n gwbl hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn medru cyflawni ei waith yn unol â'r Cyfansoddiad.

- 1 Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau trwy ddarparu rhychwant o wasanaethau a thrwy gydgyssylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd a'r darllenwyr.
- 2 Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.
- 3 Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy gynnig grantiau/comisiynau a gaiff eu sianelu trwy'r cyhoeddwyr.
- 4 Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru, ynghyd â deunydd cyffelyb arall, trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy raglen lawn o weithgarwch.

Cefnogir y swyddogaethau craidd hyn gan:

- i) Strwythurau rheoli addas
- ii) Rhaglenni hyfforddiant
- iii) Rheolaeth ariannol effeithiol

3 Amcanion Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r Cyngor Llyfrau i'w alluogi i gyflawni ei hamcanion polisi strategol yn y maes cyhoeddi; mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn manylu ar raglen waith y Cyngor Llyfrau, sy'n unol â'r amcanion hynny.

Mae'r Cynllun Gweithredol hefyd yn cyfrannu at weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru – gweledigaeth sy'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau cenedl gadarn a hyderus, cymunedau byw a llewyrchus, yn ogystal â chymdeithas deg a chyfiawn.

Fel a nodir yn *Edrych Ymlaen: Cynllun Strategaeth Cyngor Llyfrau Cymru (2016)*², y Cynllun Strategaeth pum-mllynedd, mae'r Cyngor yn cyfrannu at y meysydd canlynol:

- Cyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ystod eang o ddeunydd darllen amrywiol sy'n cyflwyno hanes Cymru a'i phobl
- Hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei chyflwyno fel iaith fyw a pherthnasol
- Hybu llythrennedd a darllen fel sgiliau hanfodol bywyd
- Cyfrannu at raglen trechu tlodi ac amddifadedd drwy sicrhau deunydd darllen amrywiol a chynhwysol
- Cyfrannu at economi Cymru drwy gefnogi diwydiant cynhenid ledled Cymru
- Cyfannu diwylliannau Cymru drwy gefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer y ddwy iaith
- Cefnogi'r sector addysg drwy ddeunydd darllen atodol i'r deunyddiau addysgol a noddir gan Lywodraeth Cymru
- Hybu Cymru dramor drwy ei llenyddiaeth gyfoethog a bri ei hawduron
- Cyfrannu at y disgwrs cenedlaethol drwy gefnogaeth i gylchgronau materion cyfoes a llenyddol yn ogystal â deunydd academaidd
- Cefnogi deunydd digidol a hybu arloesedd yn y maes.

Fel rhan o'i rôl ganolog yn hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae'r Cyngor Llyfrau'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer holl sectorau'r diwydiant. Ar yr un pryd, rhoddir cryn bwyslais ar wasanaethu'r cyhoedd yn uniongyrchol trwy ddarparu gwybodaeth am lyfrau o Gymru yn y ddwy iaith, a thrwy hwyluso'r broses o'u prynu trwy siopau llyfrau ac ar-lein. Yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor, gall y cyhoedd ddewis derbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

² <http://llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents?diablo.lang=cym>

4 Gweithio mewn Partneriaeth

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o gyrff gan gynnwys, yn naturiol, prif bartneriaid y diwydiant cyhoeddi, sef y cyhoeddwr a'r llyfrwerthwyr.

Fel un o'r gyrff mwyaf blaenllaw ym maes llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru, mae gennym berthynas waith bwysig sydd wedi'i hen sefydlu â Llenyddiaeth Cymru. Nododd yr adolygiad annibynnol o gymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru ac ymateb Llywodraeth Cymru yr angen i gryfhau ein perthynas, a sicrhau mwy o gyd-drafod cydlynus ar lefel strategol. Rydym yn gwbl ymrwymedig i gydweithio'n agosach er mwyn cael y budd mwyaf ar gyfer y diwydiant cyhoeddi, awduron ac ymarferwyr y celfyddydau a phartneriaid eraill, ond yn bennaf ar gyfer y cyhoedd fel darllenwyr, gwylwyr a chyfranogwyr gweithredol. Byddwn yn parhau gyda'r cydweithio strategol, a ddatblygwyd rhwng y ddau gorff yn 2019/20 ac sy'n dal i fod yn sail ar gyfer cydweithio, a byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd pellach wrth iddynt godi. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu'r argymhellion penodol ar gyfer y Cyngor Llyfrau fel y'u hamlinellir yn yr adolygiad.

Mae gan y Cyngor Llyfrau hefyd gysylltiadau agos iawn â'r awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda Swyddogion Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a llyfrgelloedd. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â MALD, ac â nifer o sefydliadau eraill ym myd addysg.

Bydd y Cyngor yn parhau â'r drefn o gynnal cyfarfodydd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru i rannu gwybodaeth a thrafod cyfleoedd i gydweithio. Mae gan y Cyngor hefyd gysylltiad agos â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru.

Bydd y Cyngor Llyfrau yn parhau â'i gydweithio gyda Chymdeithas Llyfrwerthwyr Prydain ac Iwerddon (The Booksellers Association of Great Britain and Ireland) a'r IPG (Urdd y Cyhoeddwr Annibynnol), yn enwedig o ran y bwriad o ddatblygu cyfleoedd hyfforddi.

Mae ei Strategaeth Tlodi Plant yn ymrwymo'r Cyngor i roi sylw penodol i'r maes pwysig hwn, ac fe gyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol i sylw Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â sicrhau deunydd darllen ar gyfer plant o gefndiroedd amrywiol, mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â'r awdurdodau addysg a'r awdurdodau llyfrgell i gefnogi ardaloedd difreintiedig.

Partner	Gweithredu yn 2020/21
Llywodraeth Cymru	<p><u>Cyffredinol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth a phrofiad yng nghyswllt cynlluniau grantiau a chomisiynu llyfrau <p><u>Cymru Greadigol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu'n agos â'r swyddogion sy'n gyfrifol am nawdd y Cyngor Llyfrau • Archwilio cyfleoedd pellach i gefnogi cynaliadwyedd a thwf y sector cyhoeddi, gan gynnwys rhoi cefnogaeth i ddiwyddiadau a ffeiriau llyfrau • Cefnogi cydweithio'n rhagweithiol ar draws y sectorau yn y celfyddydau yn ehangach gan wneud yn fawr o'r cynnyrch a gefnogir eisoes drwy'r system grantiau • Cyfrannu at ddatblygu sgiliau o fewn y sector • Cyfrannu at hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysedd o fewn y sector ac yn y gynrychiolaeth o allbwn y sector <p><u>Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus</u> <u>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydlynu gweithgarwch Diwrnod y Llyfr a'r ymgyrchoedd hyrwyddo darllen fel rhan o Raglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru • Cydweithio ar gynllun Stori Sydyn/Quick Reads fel rhan o strategaeth Sgiliau Sylfaenol • Cyfrannu at y Grŵp Llywio ar gyfer Adnoddau newydd i'r cwricwlwm newydd ac annog gweithio mewn partneriaethau o fewn y sector cyhoeddi <p><u>Is-adran y Gymraeg</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at Strategaeth Iaith y Llywodraeth a'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 • Cyfrannu at y Bwrdd Technoleg Iaith • Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi cyhoeddi'r gyfres Amdani ar gyfer dysgwyr, ac i nodi unrhyw fylchau eraill o ran adnoddau <p><u>Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol</u> <u>Yr Is-adran Datblygu Twristiaeth a Phrif Ddiwyddiadau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu a hyrwyddo llyfrau fel rhan o gynllun blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru	<p><u><i>Is-adran Diwylliant a Chwaraeon</i></u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a hyrwyddo gwefan gwales/Ilyfrgell • Cydweithio ar gynlluniau datblygu darllenwyr • Cydweithio i ddatblygu gwefan gwales/Ilyfrgell at ddefnydd y llyfrgelloedd • Gweinyddu grant Sialens Ddarllen yr Haf i'r llyfrgelloedd • Defnyddio'r grant ar gyfer dosbarthu teitlau Darllen yn Well i'r awdurdodau lleol <p><u>Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweinyddu Blwyddyn 2 o'r cynllun Darllen yn Well er mwyn cyhoeddi llyfrau ar Dementia mewn cydweithrediad â The Reading Agency • Cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y gymuned yn ymgysylltu â'r cynllun Darllen yn Well • Hybu'r cynllun yn rhagweithiol mewn llyfrgelloedd a siopau llyfrau • Cyfrannu tuag at lansiad Cam 2 o'r Cynllun Darllen yn Well ar gyfer Iechyd Meddwl
Cyngor y Celfyddydau / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Llenyddiaeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar gynllun Gwobrau Llyfr y Flwyddyn • Llenyddiaeth Cymru i gyfrannu at weithgarwch Diwrnod y Llyfr • Cyfrannu at y prosiect Ffrindiau Darllen • Cyfrannu at ddatblygu strategaeth ryngwladol ar gyfer llenyddiaeth o Gymru • Cydweithio ar stondin Ffair Lyfrau Llundain 2020 • Cydweithio ar gwrs i awduron yng nghanolfan Tŷ Newydd • Cymryd rhan ym mhanelau bwrseriaethau Llenyddiaeth Cymru • Gwahodd Llenyddiaeth Cymru i fynychu Panelau Grantiau Cyhoeddi y Cyngor Lyfrau fel aelod <i>ex-officio</i> • Cydweithio ar gynllun Bardd Plant Cymru • Ehangu'r cyrsiau hyfforddi ar y cyd i awduron a darlunwyr • Cyflwyno cais ar y cyd ar gyfer Dirprwyaeth Diwylliant i Ffair Lyfrau Frankfurt
Yr Asiantaeth Ddarllen (The Reading Agency)	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r Cynllun Darllen yn Well yn y Gymraeg (2019/20–2020/21) • Cyflwyno Sialens Ddarllen yr Haf
Jerwood Foundation / Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yng Nghymru yn 2020
BookTrust Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar gynllun hyrwyddo darllen, archwilio cyfleoedd i gydweithio ymhellach a chyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau perthnasol • Arddangos yng nghynadleddau BookTrust Cymru
Cyfnewidfa Lên Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau perthnasol • Cydweithio ar stondin Ffair Lyfrau Llundain 2021 • Cais ar y cyd ar gyfer Dirprwyaeth Diwylliant i Ffair Lyfrau Frankfurt

British Council Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiect partneriaeth yn ymchwilio i lyfrau plant mewn ieithoedd Ewropeaidd sy'n addas i'w cyfieithu i'r Gymraeg, wedi'i ariannu gan British Council Cymru • Cais ar y cyd ar gyfer Dirprwyaeth Diwylliant i Ffair Lyfrau Frankfurt
Cymdeithas Llyfrwerthwyr Prydain ac Iwerddon	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes, megis <i>Books Are My Bag</i> • Cynorthwyo gyda sefydlu <i>Bookselling Wales</i>
Llyfrgelloedd	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau penodol gyda CILIP Cymru • Arddangos yng nghynhadledd flynyddol CILIP • Gweinyddu Gwobrau Tir na n-Og a noddir yn rhannol gan CILIP Cymru (Cymynrodd Kathleen Cooks) • Cydweithio â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ar gynlluniau hyrwyddo darllen
National Literacy Trust	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Llythrennedd (Literary Hubs) i Gymru
Read for Good	<ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn y cynllun presennol, gan sicrhau bod mwy o lyfrau ar gael i wardiau plant mewn ysbytai
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun digido cylchgronau • Cydweithio ar gyfnewid gwybodaeth rhwng catalog y Llyfrgell a chronfa ddata gwales • Cydweithio ar ddigwyddiadau megis Wythnos Cymru yn Llundain
Urdd Gobaith Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o gynlluniau, yn cynnwys hyrwyddo Gwobrau Tir na n-Og a chynllun Bardd Plant Cymru
Y Sector Gwirfoddol	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cefnogaeth mudiadau gwirfoddol ac elusennol i weithgareddau hyrwyddo darllen
Wales TUC Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu ar y berthynas a sefydlwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, gyda golwg ar hyrwyddo llyfrau a darllen yn y gweithle
S4C / BBC / ITV a darparwyr cyfryngol eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Bardd Plant Cymru • Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo darllen a llyfrau drwy gyfrwng rhaglenni penodol • Siarad a chysylltu'n gyson â chomisiynwyr er mwyn trafod troi llyfrau'n rhaglenni
CBAC	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannu gwybodaeth ym maes comisiynu deunydd darllen addysgol
Trafnidiaeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Chwedlau ar y Cledrau, Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth • Ymchwilio i gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cydweithio
Cyrff Eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar hyfforddiant staff a materion Adnoddau Dynol

5 Prif-ffrydio

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i brif-ffrydio nifer o egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Egwyddor	Gweithredu yn 2020/21
Cydraddoldeb	<p>Cydymffurfio â pholisi cydraddoldeb y Cyngor. Sicrhau mynediad cyfartal i'r gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor. Dilyn proses dryloyw wrth benodi aelodau i banelau'r Cyngor, yn cynnwys hysbysebu'n gyhoeddus.</p> <p>Cydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor.</p> <p>Trwy'r cynllun grantiau, cefnogi ystod eang o lyfrau sy'n adlewyrchu amrywiol ddiddordebau'r darllenwyr.</p>
Amrywiaeth a Chynhwysiant	<p>Anelu at gynyddu'r amrywiaeth ymhlith gwirfoddolwyr, yn enwedig gyda golwg ar gynyddu'r gynrychiolaeth BAME (Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig), ond hefyd o ran oedran, cefndir cymdeithasol-economaidd ac anabledd.</p>
Datblygu cynaliadwy	<p>Cefnogi isadeiledd y diwydiant cyhoeddi, er budd economi gynaliadwy Cymru.</p> <p>Cynnal a chefnogi hyfforddiant o fewn y diwydiant cyhoeddi i ddatblygu sgiliau.</p> <p>Archwilio cyfleoedd i arbed ynni, yn enwedig o safbwynt tanwydd, a monitro ailgylchu deunyddiau swyddfa.</p> <p>Monitro'r cynllun rheoli gwastraff o ran ailgylchu deunyddiau swyddfa, a chydymffurfio ag argymhellion yr Awdit Gwastraff Peryglus.</p>
Cyfiawnder Cymdeithasol	<p>Parhau i gefnogi a hyrwyddo deunydd darllen addas ar gyfer darllenwyr anfoddog mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cefnogi ystod eang o ddeunydd darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Cefnogi gweithgarwch hybu llythrennedd a sgiliau darllen.</p>
Anabledd	<p>Cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Datblygu mynediad ar-lein at wybodaeth am lyfrau o Gymru a gwasanaethau'r Cyngor.</p> <p>Hyrwyddo deunydd digidol a llyfrau llafar.</p> <p>Cynorthwyo llyfrgelloedd i sicrhau llif cyson o lyfrau print bras a gynhyrchwyd i safon uchel.</p>
Hybu'r Iaith Gymraeg	<p>Cydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith y Cyngor.</p> <p>Cefnogi staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu Gymraeg.</p>

- Cyhoeddusrwydd/Brandio

Bydd y Cyngor yn defnyddio'i frand a'i logo newydd ym mhob un o'i weithgareddau a'i ddeunyddiau i danlinellu a rhoi gwybod am y newid enw; gwneir hyn er mwyn sicrhau'r newid y mae'n ei ragweld o ran canfyddiad, sef bod y Cyngor yn elusen genedlaethol i Gymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo darllen a chefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru ynghylch brandio, ac yn cydnabod nawdd Llywodraeth Cymru mewn digwyddiadau ac ar gyhoeddiadau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd staff yn parhau i gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull cydlynol ac integredig o ymdrin â gwaith marchnata a chyfathrebu.

6 Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith bod creadigrwydd cynhenid y diwydiant cyhoeddi yn cynnwys elfen o risg – a bod hynny'n rhan greiddiol o'i natur ac yn angenrheidiol i'w fodolaeth. Mae cyfrifoldeb arnom hefyd fel sefydliad i ddeall, dadansoddi a rheoli'r risg honno orau y gallwn.

Cydnabyddir fod elfen o risg ynghlwm ag unrhyw weithgaredd creadigol, gan gynnwys y diwydiant cyhoeddi. Heb hynny, mae gwir bosibilrwydd y gallai'r diwydiant aros yn ei unfan gan fethu neu wrthod cyfleoedd datblygu blaengar. Mae'r Cyngor, drwy'r Panelau Grantiau Cyhoeddi, yn mentro'n gyson drwy gefnogi a hyrwyddo cynnwys sy'n feiddgar ac yn heriol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i arbrofi gyda chynlluniau arloesol i farchnata llyfrau ac i hyrwyddo darllen – gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd na fydd yr holl gynlluniau'n perfformio cystal â'i gilydd. Mae gan y Cyngor drefniadau cytbwys o'r ddwy ochr gyda Llenyddiaeth Cymru i fynychu panelau grantiau a bwrseriaethau er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, rhywbeth sydd hefyd yn help i osgoi dyblygu nawdd.

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a'i heffaith ar werthiant a allai arwain at gefnogi deunydd darllen 'saff', mae'r Panelau Grantiau Cyhoeddi yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gefnogi ystod o ddeunydd darllen.

Fel y nodwyd uchod, mae cyfrifoldeb hefyd yn dod yn sgil mentro, ac mae'r Cyngor yn pwysu'n drwm ar brofiad staff, aelodau panelau arbenigol a phartneriaid o fewn y diwydiant i reoli'r risg honno. Bydd y Panelau Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg a Saesneg) yn arolygu cynnyrch a pherfformiad y cyhoeddwr unigol drwy adroddiadau monitro a chyfarfodydd cloriannu, ac mae rhaglen hyfforddiant i gyhoeddwr yn fodd o'u cynorthwyo i adnabod a rheoli risg.

Bydd timau mewnol yr Adran Gwerthu a Gwybodaeth/y Ganolfan Ddosbarthu yn cyd-graffu ar ymgyrchoedd marchnata a thargedau gwerthiant/ariannol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Rheoli a'r Prif Swyddogion.

7 Ymchwil a Gwerthuso

Er mwyn i'r diwydiant cyhoeddi sicrhau'r gwerth gorau am arian, mae'n hanfodol fod gwaith ymchwil a gwerthusiad o'n cynlluniau'n cael eu cynnal yn gyson.

Cyhoeddwyd adolygiad Dr Siwan Rosser ar y ddarpariaeth o Lyfrau Cymraeg i Blant ym mis Rhagfyr 2017 (Dr Siwan Rosser, *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol*, 2017)³. Mae adroddiad Dr Rosser wedi cael derbyniad gwresog eisoes a bu'n ddefnyddiol dros ben i'r Adran Llyfrau Plant a'r Panel Llyfrau Plant, ac yn fwy penodol i'r Panel Grantiau Cyhoeddi. Mae'r adroddiad uchelgeisiol yn cynnwys nifer o dargedau, rhai wedi eu gweithredu eisoes, ac eraill ag angen gwaith cynllunio yn y tymor hir ar eu cyfer a/neu gyllid ychwanegol; bydd angen trafod rhai targedau'n fwy helaeth ymhlith yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach.

Mewn ymateb i un argymhelliad penodol mewn perthynas â rhieni di-Gymraeg sydd wedi dewis addysgu eu plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, comisiynwyd cwmni Beaufort i wneud gwaith ymchwil drwy gyfrwng grŵp ffocws rhieni, a bydd y canfyddiadau hynny hefyd yn cefnogi'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y Panel Grantiau Cyhoeddi yng ngoleuni adroddiad Dr Rosser.

Paratowyd adroddiad ar ymchwil economaidd ac effaith y diwydiant llyfrau yng Nghymru gan yr Athro Max Munday o Brifysgol Caerdydd; fe'i cyflwynwyd yn haf 2018, a bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at y gwaith o lunio polisi Cyngor Llyfrau Cymru.

Mae ymchwil annibynnol hefyd wedi dylanwadu ar ddyfarniadau grant a wnaed yn ddiweddar. Er enghraifft, bwydodd yr ymchwil ar gylchgronau Saesneg (Tony Bianchi, *Adolygiad o Gylchgronau Saesneg yng Nghymru*, 2013)⁴ i'r gwaith o lunio manyleb y tendr cylchgronau am y cyfnod 2015–2019 ac yn fwy diweddar ar gyfer 2019–2023, gyda'r ymchwil gyfatebol i gylchgronau Cymraeg (Andrew Green, *Adolygiad o Gylchgronau a Chyfnodolion Cymraeg 2015*, heb ei gyhoeddi) yn berthnasol i'r cyfnod trwyddedu 2019–2023.

Comisiynwyd Beaufort Research – cwmni sy'n arbenigo ar ymchwil marchnad – gan y Cyngor i baratoi arolwg ar y tueddiadau yng nghyd-destun darllen llyfrau Cymraeg; cyflwynwyd eu hadroddiad yn 2019. Yn ogystal, mewn ymateb i argymhellion adroddiad Dr Rosser ar ddeunydd darllen Cymraeg i blant a phobl ifanc, cynhaliodd Beaufort ymchwil yn benodol gyda rhieni er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion. Bydd yr ymchwil yn dylanwadu ar bolisi yn y maes pwysig hwn i'r dyfodol.

³ <http://llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>

⁴ <http://llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>

8 Rhaglen Waith y Cyngor yn 2020/21

Rhestrir isod nifer o gynlluniau a weithredir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r cynlluniau hyn i gyd yn unol ag amcanion y Cyngor mewn perthynas â hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

1 GRANTIAU CYHOEDDI

Grantiau i ddeunydd Cymraeg

O ran cyhoeddi trwy gyfrwng y Gymraeg, nod prif gynlluniau grant y Cyngor yw gwella ansawdd llyfrau, a chynyddu'r amrywiaeth o lyfrau a chylchgronau a gyhoeddir; gwneir hyn drwy noddi awduron, dylunwyr a chyhoeddwr o'r radd flaenaf i ysgrifennu, darlunio, dylunio a golygu llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau craidd hyn ac yn ceisio cynnal – cyn belled ag y bo hynny'n bosibl – y nifer o deitlau a gyhoeddir.

Yn ogystal â'r gwaith craidd hwn, yn ystod 2020/21 fe fydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r canlynol:

- Cynlluniau i ddargyfeirio'r arian a arferai fynd i Wasg Gomer i gynnal y nifer o lyfrau a gynhyrchir ac i ddenu amrywiaeth o gyhoeddwr newydd i'r maes.
- Cwblhau'r broses o dendro ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol.
- Adroddiad Dr Siwan Rosser – *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol* (2017) – a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Cafodd dderbyniad gwresog, ac mae wedi esgor ar weithgaredd mewn sawl maes. Bydd y gwaith yn parhau yn 2020/21, yn enwedig yn y meysydd canlynol:
 - Oedolion Ifanc: gwella diwyg a datblygu awduron newydd (mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru).
 - Technoleg: chwilio am ffyrdd o ddatblygu dulliau realiti estynedig i hwyluso'r berthynas gyda dysgwyr y Gymraeg a rhieni di-Gymraeg.
 - Rhyngwladoli: o ran darganfod deunydd rhyngwladol i'w gyfieithu i Gymraeg a dod o hyd i farchnadoedd i destunau gwreiddiol Cymraeg.
- Edrych ar ddatblygu'r ddarpariaeth o lyfrau llafar Cymraeg.
- Datblygu ffordd gyson ac effeithiol o fesur cyrhaeddiad digidol y cylchgronau a noddir.
- Parhau i hyrwyddo blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru ymhlith y cyhoeddwr ac yng ngwaith Cyngor Llyfrau Cymru.
- Bydd y cynllun i gefnogi llyfrwerthwyr yn parhau, a bydd y Cyngor yn hyrwyddo a marchnata llyfrau'r grant cyhoeddi drwy ddulliau generig o hyrwyddo, yn ogystal â thrwy ddarparu grantiau penodol i alluogi cyhoeddwr i hyrwyddo llyfrau newydd.

Grantiau i ddeunydd Saesneg

Mae cefnogaeth i gyhoeddiadau Saesneg o Gymru'n sicrhau ystod o ddeunyddiau bywiog sy'n adlewyrchu diwylliant neilltuol Cymru, a hynny yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig o fewn y farchnad gyhoeddi Eingl-Americanaidd. Mae'r grantiau'n darparu ar gyfer darllenwyr yng Nghymru deitlau sy'n berthnasol iddynt hwy, ac sy'n cynrychioli diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol. Wrth weinyddu'r grant, bydd y Cyngor yn:

- cefnogi isadeiledd trwy gyfrwng y Grant Swyddi a Gefnogir a'r Grant Refeniw, er mwyn cynnal cefnogaeth ariannol i swyddi yn y sector. Ymhellach, dyrennir grantiau marchnata fesul teitl er mwyn sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y darllenwyr, ac i roi cyfle i gyhoeddwy'r gynhyrchu incwm hollbwysig o'r gwerthiant.
- rhoi blaenoriaeth i ariannu teitlau newydd i oedolion a phlant, a'r rheiny'n addas ar gyfer ystod eang o ddarllenwyr. Bydd hyn yn cynnwys cynnal dulliau o ariannu llyfrau poblogaidd drwy gyfrwng y cynllun Grantiau Blaendaliadau Awduron, a chynnal safon llyfrau llenyddol drwy'r Grant Refeniw a'r Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol.
- yn ogystal, ariennir cylchgronau print a digidol sy'n cyfrannu at ddiwylliant Cymru er mwyn darparu llwyfan hanfodol ar gyfer trafod, dadansoddi ac ysgrifennu o ansawdd da ar ystod eang o bynciau.
- sicrhau gwerth am arian trwy osod targedau gwerthiant dros 18 mis yn achos llyfrau a ariannwyd dan y cynlluniau Refeniw, Blaendaliadau Awduron a Marchnata. Byddwn yn annog rhestr gytbwys o lyfrau gan gyhoeddwy'r Refeniw, a monitro ansawdd a gwerth diwylliannol teitlau a ariennir gan grant. Byddwn yn parhau i sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur cyrhaeddiad digidol y cylchgronau, a fydd yn annog arfer gorau yn y maes hwn.
- canolbwyntio ar ddatblygu'r sector a hybu arfer da ymhlith cyhoeddwy'r sy'n derbyn grantiau. Cynigir cyfleoedd am hyfforddiant i gyhoeddwy'r llyfrau, gyda'r bwriad o annog rhagoriaeth ac i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o fewn y diwydiant.
- yn dilyn cyhoeddi'r hanner canfed teitl yn y gyfres Library of Wales, bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu partneriaethau ymhellach a chanolbwyntio ar fentrau i annog defnydd o'r clasuron o Gymru ym myd addysg.
- cefnogi'r cyhoeddwy'r i greu Cymdeithas Cyhoeddwy'r newydd ar gyfer cwmnïau Saesneg yng Nghymru a hwyluso'r dull o weinyddu'r broses hon.
- gweithio ochr yn ochr â llyfrgellwyr i sicrhau bod llyfrgellwyr yn ymwybodol o deitlau newydd ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.
- manteisio ar bob cyfle i ffurfio partneriaethau a gwneud cyfraniad diwylliannol a masnachol i gynllun blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru.

2 GWERTHU A GWYBODAETH

- Cynyddu cymaint â phosibl ar y gwerthiant i'r siopau llyfrau annibynnol, arbenigol drwy:
 - gefnogi'r llyfrwerthwyr i gynnal digwyddiadau allan o'r siop drwy gymorth ariannol y Cynllun Ymestyn;
 - sicrhau bod y cyhoeddwy'r yn rhoi cyfle i siop annibynnol fod yn bresennol ar gyfer lansio llyfr neu sesiwn llofnodi;
 - gweinyddu cynllun disgownt ychwanegol ar gyfer y siopau llyfrau annibynnol;

- cynnal cyfarfod blynyddol gyda'r llyfrwerthwyr i weld lle gellir gwella'r gwasanaethau a'r cydweithio.
- Sicrhau bod cytundeb cyflenwi llyfrau Cadw yn parhau i'w holl safleoedd drwy ennill y tendr, neu sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn parhau i gael eu gweinyddu drwy'r Cyngor.
- Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chyfanwerthwyr a phrynwyr canolog yn y Deyrnas Gyfunol yng nghyd-destun llyfrau penodol, er mwyn sicrhau bod y llyfrau'n cael y sylw mwyaf posibl y tu hwnt i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo a gwerthu llyfrau o Gymru drwy Waterstones, WHSmith, Gardners ac Amazon, gan ganolbwyntio'n arbennig ar hwyluso'r trefniadau ar gyfer archebu a dosbarthu.
- Cydweithio'n agos â chyhoeddwyr Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i ehangu'r cyfleoedd gwerthu gan sicrhau bod y Cyngor yn gystadleuol o'i gymharu â dosbarthwyr eraill. Cynnig cefnogaeth i gyhoeddwyr gyda'u Data Llyfryddol (metadata) gan roi cyfle iddynt werthu eu nwyddau newydd yn y Cynadleddau Gwerthu (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn).
- Gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid llyfryddol, megis Nielsen, i sicrhau bod metadata llawn ar bob teitl.
- Adolygu gwefan llyfrau.cymru gan sicrhau defnyddio Google Analytics er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r defnydd a wneir o'n gwefan gan ein cwsmeriaid.
- Trefnu ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd, cynadleddau addysgol a llyfrgelloedd ledled Cymru i arddangos, cyflwyno a sicrhau gwerthiant i'r ddarpariaeth eang o ddeunyddiau sydd ar gael, a phwysleisio'u perthnasedd i ofnyon y cwricwlwm.
- Adolygu'r modd y gweinyddir yr adolygiadau ar wefan gwales.com.

3 CYFATHREBU A MARCHNATA

- Gweithio i ymgorffori a lledaenu'r brand newydd ar draws yr holl gyfryngau.
- Trefnu stondinau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Amaethyddol Llanelwedd ac Eisteddfod yr Urdd (mewn cydweithrediad â siop lyfrau).
- Cydweithio'n agos â Gŵyl y Gelli i sicrhau bod detholiad o lyfrau o Gymru yn cael lle gweledol amlwg yn yr ŵyl.
- Mynychu ffeiriau masnach perthnasol er mwyn sicrhau y gwneir pob ymdrech i gynyddu'r nifer o gyfleoedd i werthu drwy leoliadau megis orielau, siopau anrhegion ac atyniadau i dwristiaid.
- Hyrwyddo maes bywiog llenyddiaeth o Gymru mewn digwyddiadau y tu allan i Gymru, e.e. Ffair Lyfrau Llundain, Wythnos Cymru yn Llundain.
- Cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol; creu deunyddiau hyrwyddo a hysbysebu i ddenu dilynwyr newydd ar lwyfannau megis Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube.

- Goruchwylio a datblygu ein hymgyrchoedd marchnata print yn y gwanwyn, yr haf a'r Nadolig (catalogau *Llyfrau'r Haf*, *Gwledd y Nadolig*, *Summer Reads* a *Festive Reads*), marchnata digidol a'r cyfryngau darlledu (hysbysebion teledu).

4 HYRWYDDO LLYFRAU A DARLLEN

- Datblygu is-frand dan y logo newydd i amlygu'r rhaglen ddigwyddiadau.
- Cynnal rhaglen o weithgareddau i godi proffil a hyrwyddo llyfrau plant yn y ddwy iaith; bydd hyn yn cynnwys:
 - trefnu'r cystadlaethau llyfrau – Darllen dros Gymru a BookSlam.
 - cyflwyno Gwobrau Tir na n-Og i wobrwyo'r cynnyrch gorau ym maes llyfrau plant yn y ddwy iaith.
 - trefnu ymgyrchoedd Teithiau Awdur – gan gydweithio ag awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr, ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru.
 - sicrhau sylw i gyhoeddiadau, prosiectau neu newyddion sy'n berthnasol i faes llenyddiaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol @LlyfrDaFabBooks.
 - cydweithio â Llenyddiaeth Cymru i hyrwyddo cynllun Bardd Plant Cymru.
- Cynnal rhaglen o weithgareddau hybu darllen mewn perthynas â Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys:
 - cydlynw gweithgarwch Diwrnod y Llyfr 2020.
 - cefnogi cynllun Sialens Ddarllen yr Haf mewn perthynas ag ysgolion a llyfrgelloedd, gan roi pwyslais ar dargedu a chyrraedd disgyblion o fewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru.
 - Parhau â'r gyfres Stori Sydyn/Quick Reads ar gyfer pobl ifanc ac oedolion i dargedu darllenwyr anfoddog, boed yn blant neu'n oedolion.
- Parhau i weithredu'r Strategaeth Tlodi Plant, gan bwysleisio pwysigrwydd llythrennedd a darllen fel sgil hanfodol ac arf pwerus i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc.
- Cryfhau'r berthynas rhyngom ni a'r consortia rhanbarthol ac Adrannau Addysg Llywodraeth Cymru, gan greu adnoddau hyrwyddo i gefnogi ymgyrchoedd penodol (e.e. y Siarter Iaith, Cymraeg Campus). Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Cydweithio â phartneriaid megis The Reading Agency, BookTrust Cymru a chydlynwyr World Book Day UK, gan sicrhau dimensiwn Cymreig i'r cynlluniau a'r gweithgareddau.
- Cydweithio â'r Adran Grantiau Cyhoeddi i weithredu argymhellion Adroddiad Dr Siwan Rosser – *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol* (2017) – gan gydweithio â phartneriaid megis yr Urdd ac S4C i sbarduno syniadau, codi proffil llenyddiaeth i blant, a datblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth am lyfrau ymhlith athrawon, darpar athrawon a rhieni.

5 GWASANAETHAU GOLYGU A DYLUNIO

- Cynnig gwasanaeth dylunio o'r safon uchaf i'r gweisg, a chydweithio â'r gweisg bychain i wella diwyg eu cyhoeddiadau.

- Cynnig gwasanaeth golygu copi a phrawfddarllen i'r gweisg, ynghyd â chynghor ac arweiniad i'r golygyddion creadigol sy'n gweithio yn y tai cyhoeddi.
- Parhau i gynnig gwasanaeth golygu a dylunio mewnol i holl adrannau'r Cyngor.
- Adolygu'r modd y mae adolygiadau o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gyfer gwefan gwales.com yn cael eu gweinyddu.

6 TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

- Sicrhau bod gwefan newydd y Cyngor yn fyw er mwyn rhoi golwg mwy modern iddi, a'i gwneud yn haws ei defnyddio.
- Ymgorffori'r logo newydd lle bo modd ar draws y llwyfannau cwsmeriaid a'r llwyfannau cyhoeddus.
- Ehangu'r defnydd o system SharePoint yn fewnol gan annog y defnydd ohono i rannu gwybodaeth gyda phwyllgorau, cyhoeddwy'r a llyfrwerthwyr er mwyn arbed argraffu, postio a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd.
- Sicrhau bod staff yn defnyddio dulliau effeithiol o gadw gwybodaeth electronig sydd yn hawdd ei rhannu a'i haddasu, gan leihau dyblygu prosesau.
- Blaenoriaethu gwaith sydd yn cryfhau gallu'r Cyngor i ddelio ag ymosodiad seiber, gan anelu at gyrraedd gofynion Cyber Essential Plus erbyn diwedd 2021.
- Diweddarau caledwedd a rhwydweithiau'r ddau leoliad er mwyn cyflymu prosesu a lleihau'r risg o golli data neu golli amser o ganlyniad i golli'r rhwydwaith.
- Cynnal o leiaf 6 chyfarfod o'r Tîm Technoleg mewnol.
- Darparu hyfforddiant priodol i staff i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r dechnoleg.
- Yn ystod 2020/21, bydd Tîm Rheoli'r Cyngor Llyfrau yn canolbwyntio ar weithredu'r system TG newydd. Mae penodi Rheolwr Prosiect i oruchwylio'r tasgau hyn yn holl bwysig, gan y bydd angen cadw ffocws ar y prosiect a chyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran gwariant. Er bod y gwaith cychwynnol yn cynnwys tendro, comisiynu a chyflawni anghenion cytundebol y contract, bydd y gyllideb gyfan wedi ei dyrannu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. I bwrpas paratoi'r data ar gyfer ei symud, mae yna nifer o ymarferion glanhau data i'w cwblhau – er enghraifft, penderfynu beth i'w wneud gyda theitlau sydd allan o brint, clirio achosion o ddyblygu, a dod â sawl set o wybodaeth ynghyd i sicrhau nad oes ond un dataset craidd yn bodoli ar gyfer y trosglwyddo. Un ffocws allweddol eleni fydd y trosglwyddo o ONIX 2.1 i ONIX 3.0, a fydd yn holl bwysig i sicrhau bod y gwerthiant i Amazon yn parhau. Bydd system newydd yn awtomeiddio amryw o brosesau, felly bydd rhaglen o hyfforddiant i staff yn hanfodol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer anghenion y busnes. Bydd hyn yn cael effaith drawsffurfiol ar y modd y mae'r busnes yn gweithio, ac yn ei alluogi i gystadlu a gweithredu'n effeithiol.

7 Y GANOLFAN DDOSBARTHU

- Datblygu enw sy'n cyd-fynd â natur fasnachol y gwaith a datblygu brand dan y logo corfforaethol newydd; creu gwefan ar wahân yn amlinellu'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a gynigir, yn ogystal â'r telerau ac amodau.
- Ehangu'r defnydd o EDI (ymgyfnewid data electronig) i hwyluso cyfathrebu electronig â llyfrwerthwyr a chyfanwerthwyr.
- Creu system bacio sy'n fodern ac yn addas ar gyfer y gwasanaeth dosbarthu.
- Cynnal adolygiad o drefniadau gweinyddol y Ganolfan, gan sicrhau bod y defnydd o dechnoleg yn cael ei gyflwyno ar gyfer prosesu er mwyn lleihau'r prosesau sydd eu hangen.
- Cynnal arolwg o wasanaeth a chostau gwahanol gwmnïau dosbarthu i sicrhau gwerth am arian.
- Parhau i ddadansoddi ac arolygu costau rhedeg y Ganolfan, gan sicrhau bod gwasanaeth o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu i'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr a pharatoi adroddiad blynyddol o werth y gwasanaeth hwn i'r cyhoeddwyr.

8 CODI ARIAN

- Adolygu'r cynnydd ar y Strategaeth Codi Arian, gan edrych ymhle mae'r blaenoriaethau strategol, pa fath o brosiectau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â hwy, a pha adnoddau sydd ar gael i weithredu'r strategaeth hon.
- Datblygu'r adnoddau codi arian gan gynnwys y gronfa ddata, ymchwil dichonolrwydd a deunyddiau marchnata.
- Datblygu proffil y Cyngor ymhlith cyrff sy'n dosbarthu arian drwy gyfrwng cyfarfodydd a rhwydweithio.
- Datblygu cyfleoedd newydd i recriwtio cefnogwyr a noddwyr corfforaethol.
- Gweithredu rhaglen o geisiadau grant cymeradwy.

9 CYLLID

- Gweithredu'r Cynllun Strategol drwy sicrhau bod y gyllideb hir-dymor yn darparu cyllid ac adnoddau digonol i gyflawni'r strategaeth.
- Paratoi'r cyfrifon statudol blynyddol ar gyfer 2019/20 erbyn y dyddiadau cau y cytunwyd arnynt, a derbyn adroddiad archwiliad glân.
- Gweithredu proses ar-lein i weinyddu taliadau'r Cynllun Ymestyn a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r siopau annibynnol.
- Gweithredu newidiadau i'r cynllun tocynnau llyfrau, yn unol ag argymhellion y Cynllun Strategol.

- Cydweithio gyda Chynllun Pensiwn Dyfed i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r cynllun pensiwn yn fforddiadwy i'r Cyngor ar gyfer y dyfodol, a chynnal adolygiad llawn o'r opsiynau tymor-hir i leihau rhwymedigaethau i'r dyfodol.
- Sicrhau bod y Cynllun Gweithredol yn ein helpu i gyflawni polisiâu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10 EIDDO AC ADNODDAU

- Gweithredu ar argymhellion yr adolygiad o adeiladau'r Cyngor, gan sicrhau buddsoddiad rheolaidd yn yr adeiladau a'r offer.

11 DATBLYGU STAFF

- Parhau i godi safon arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor, gan ddilyn yr arferion gorau o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mewn ymateb i'r drefn gloriannu flynyddol, bydd y Cyngor yn parhau i adnabod cyfleoedd i hyfforddi a datblygu aelodau o'r staff i'w helpu i ennill sgiliau hyblyg a throsglwyddadwy a fydd yn eu galluogi i ymateb i unrhyw gyfleoedd newydd.

12 GWEINYDDIAETH

- Parhau i archifo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor drwy ddulliau electronig, gan sicrhau mynediad rhwydd i'r cyhoedd.
- Trefnu i archifo gwefannau'r Cyngor mewn cydweithrediad â'r Llyfrgell Genedlaethol.

13 LLYWODRAETHIANT

- Yn dilyn yr Adolygiad Strategol, sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r strwythur rheoli presennol yn cael eu gweithredu, a bod y strwythur newydd yn addas ar gyfer sefydliad sy'n gallu ymateb yn gyflym i gyfleoedd newydd a heriau busnes.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Iaith Gymraeg ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth â'r safonau mewn Adroddiad Blynyddol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cael ei reoli gan gorff sy'n adlewyrchu amrywiaeth yng Nghymru, ac yn cyflawni ei swyddogaeth graffu sy'n adnabod yr heriau a'r risgiau sy'n eu hwynebu.
- Annog trafodaeth bellach ar faes cyhoeddi academiaidd yng Nghymru, gan wyntyllu strwythurau ariannu ynghyd â chyfrifoldebau amrywiol bartneriaid i gynnal a datblygu'r maes (e.e. sefyllfa Gwasg Prifysgol Cymru).

9 Pa adnoddau fydd ar gael

Dangosir isod y symiau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

	2020/21
Grant Craidd	£
Tuag at Adrannau Arbenigol	770,895
Costau Cyffredinol a Chostau Rhedeg	358,383
	<hr/> 1,129,278
 Grant Cyfalaf	 780,000
 Grantiau i'w Dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,600,722
	<hr/> 3,679,000 <hr/>

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cynnwys amcangyfrifon manwl ar gyfer 2020/21.

Mae cyllid prosiect hefyd ar gael yn 2020/21 trwy Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru:

Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	£140,000
-----------------------------	----------

Y mae modd cyflawni popeth sydd yn y Cynllun hwn, a hynny'n unol â dyraniad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

10 Targedau Allweddol

	2020/21 Targed	Targed	Targed	Targed	Targed
Targedau fesul chwarter		Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
Llawysgrifau – Adran Olygyddol	170	44	44	40	42
Teitlau – Adran Ddylunio	110	30	30	25	25
Y Ganolfan Ddosbarthu	£4.05m gros / £2.7m net	£830,250 gros £553,500 net	£1,012,500 gros £675,000 net	£1,275,750 gros £850,500 net	£931,500 gros £621,000 net
Hybu'r defnydd o gwales. Targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein i siopau a gwerthiant i gwsmeriaid unigol	Siopau: £2,981,420 Unigolion: £60,000 Defnyddwyr gwales: (-30%) 15,000	Siopau: £596,284 Unigolion: £14,000 Defnyddwyr gwales: 12,000	Siopau: £715,541 Unigolion: £14,000 Defnyddwyr gwales: 13,000	Siopau: £1,132,940 Unigolion: £23,000 Defnyddwyr gwales: 14,000	Siopau: £536,655 Unigolion: £9,000 Defnyddwyr gwales: 15,000
Cynllun Ymestyn	Achlysuron: 350 Gwerthiant: £150k	60 £25,000	80 £40,000	130 £55,000	80 £30,000
Targedau fesul tymor ysgol		Tymor 1	Tymor 2	Tymor 3	
Cynllun Ysgolion	Nifer ymweliadau: 500 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £400,000	Ymweliadau: 150 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £140,000	Ymweliadau: 200 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £150,000	Ymweliadau: 150 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £110,000	
Targedau blynyddol					
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%				

	Targed 2020/21
Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)	
<u>Llyfrau</u>	
Nifer y teitlau a gyhoeddir	215
Nifer y teitlau Cynllun A (Awduron) a gyhoeddir	20
Nifer y teitlau Cynllun A (Deunydd Gweledol) a gyhoeddir	12
Cyfartaledd gwerthiant	1,000 ar ôl 18 mis (ar gyfer llyfrau newydd y Cyhoeddwyr Rhaglen a gyhoeddwyd yn 2018/19)
Nifer y swyddi golygyddol a gefnogir yn y tai cyhoeddi	10
<u>Cylchgronau</u>	
Cyfanswm y cylchgronau a gyhoeddir	15
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau	2,850 – Hamdden 2,220 – Newyddiaduraeth 1,650 – Plant 600 – Llenyddol a Diwylliannol
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	98%

	Targed 2020/21
Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)	
<u>Llyfrau</u>	
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75
Nifer y teitlau Blaendal Awdur a gyhoeddir	15 (i'w cyhoeddi) (+ 10 wedi'u comisiynu)
Cyfartaledd gwerthiant teitlau Blaendal Awdur	2,500
Grantiau Marchnata	20
Cyfartaledd gwerthiant teitlau Grant Marchnata	2,500
<u>Cylchgronau</u>	
Nifer y cylchgronau diwylliannol (neu atodiadau) a gyhoeddir	5
Isafswm gwerthiant cylchgronau diwylliannol (print a digidol)	1,000 – cylchgronau cyffredinol 500 – cylchgronau llenyddol aml-ffocws 400 – cylchgronau llenyddol ffocws unigol
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%

CYLLIDEB 2020/21

INCWM	£
Llywodraeth Cymru	
Costau Uniongyrchol Adrannau Arbenigol	770,895
Costau Cyffredinol a Chostau Rhedeg	358,383
Grant Cyfalaf	780,000
Grantiau i'w dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,600,722
Ffynonellau eraill o incwm i brosiectau:	
Llywodraeth Cymru: Adran Addysg a Sgiliau	
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	140,000
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	15,000
Incwm yr Adrannau	148,000
Y Ganolfan Ddosbarthu	2,543,750
CYFANSWM INCWM	7,356,750
GWARIANT	
Adrannau Arbenigol – Costau Uniongyrchol	918,895
Gwariant Prosiectau	155,000
Gwasanaethau Canolog a Chostau Llywodraethiant	358,383
Costau Cyfalaf	780,000
Grantiau i'w dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,600,722
Y Ganolfan Ddosbarthu	2,543,750
CYFANSWM GWARIANT	7,356,750

DADANSODDIAD O'R COSTAU 2020/21**GWARIANT**

	CYFLOGAU	COSTAU ERAILL	INCWM	NET	CYFANSWM
Adrannau Arbenigol – Costau Uniongyrchol					
Adran Olygyddol	94,333	15,000	20,000	(5,000)	89,333
Adran Ddylunio	93,170	7,500	21,000	(13,500)	79,670
Adran Gwerthu a Gwybodaeth	327,756	88,200	22,000	66,200	393,956
Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	71,386	25,900	8,500	17,400	88,786
Adran Cyfathrebu a Marchnata	46,649	149,000	76,500	72,500	119,149
Cyfanswm Costau Uniongyrchol yr Adrannau Arbenigol	633,294	285,600	148,000	137,600	<u>770,895</u>
Gwasanaethau Atodol a Chostau Cyffredinol	202,084	156,299	–	156,299	358,383
Cyfanswm Costau Rhedeg	835,379	441,899	148,000	293,899	<u>1,129,278</u>
Costau Prosiectau					
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	33,091	121,909	155,000	(33,091)	
CYFANSWM COSTAU	868,470	563,808	303,000	260,808	<u>1,129,278</u>
Grant Cyfalaf					<u>780,000</u>
Grantiau i'w Dosbarthu					
Grantiau Cyhoeddi					<u>2,600,722</u>

GRANTIAU CYHOEDDI 2020/21**Grantiau i'w Dosbarthu 2020/21**

£
2,600,722

Deunydd Cymraeg

	£
Cyhoeddwyr Rhaglen	395,710
Grantiau Cyhoeddi Unigol	60,000
Taliadau Perfformiad ayb	10,000
Cefnogi Swyddi a Hyfforddiant	218,364
Taliadau Awduron a Deunydd Gweledol	344,650
Marchnata	36,500
Llyfrwerthwyr	24,797
Deunydd Electronig ac Adnoddau Digidol	33,251
Cylchgronau	380,500
Cymorth i'r Wasg Gymraeg	200,000
Gweledigaeth Adroddiad Siwan Rosser	5,000
Cyfanswm Grantiau Cymraeg	<u>1,708,772</u>

Deunydd Saesneg

	£
Grant Cyfnodolion Diwylliannol	180,000
Grant Cyhoeddwyr Refeniw	237,102
Grant Llyfrau Llenyddol Unigol	60,000
Arian Ychwanegol	12,776
Grant Cylchgronau Bychan	4,500
Grant Hyfforddi	5,000
Grant Blaendaliadau Awduron	54,000
Grant Cefnogi Swyddi	88,550
Grant Marchnata	* 45,177
Clasuron	10,000
Publishers Association	3,000
Cyfanswm Grantiau Saesneg	<u>700,105</u>

Gweinyddu 191,845

Cyfanswm Grantiau 2,600,722

* Grant Marchnata	£45,177
Prif Grant Llyfrau	£36,177
Grantiau Bach	£9,000

SYSTEM TG: AMSERLEN

Awgrymir yr amserlen ganlynol ar gyfer comisiynu'r gwaith:

Cam	Amserlen
Llywodraeth Cymru i gadarnhau lefel y cyllid sydd ar gael	16 Rhagfyr 2019
Drafftio cyllideb yn seiliedig ar y cyllid a ddarperir a faint o arian cyfatebol y gall Cyngor Llyfrau Cymru ei gyfrannu	17 Rhagfyr 2019
Hysbysiad PIN yn fyw ar safle GwerthwchiGymru i hysbysu pob cynigydd ynghylch y math o gaffael sy'n cael ei gynllunio	20 Rhagfyr 2019
Diffinio lleiafswm y meini prawf ar gyfer cwmnïau sy'n bwriadu cynnig am y system – Holiadur Cymhwyster Diffinio meini prawf technegol ar gyfer cwestiynau i'w gofyn a manyleb y system sy'n cael ei chaffael Diffinio sut y bydd yr amlen fasnachol yn cael ei gwerthuso	Ionawr 2020
Hysbysebu ar gyfer Rheolwr Prosiect	14 Ionawr 2020
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau Rheolwr Prosiect	31 Ionawr 2020
Cyfweliadau ar gyfer Rheolwr Prosiect	18 Chwefror 2020
Pob dogfen dendr wedi'u cwblhau a'u gwirio	1–14 Mawrth 2020
Tendr yn fyw – ateb unrhyw gwestiynau a dderbynnir drwy'r system GwerthwchiGymru	14 Mawrth 2020
Tendr yn cau – gwerthuso'r nifer o geisiadau cymwys a dderbyniwyd	24 Ebrill 2020
Cyfnod gwerthuso	25–30 Ebrill 2020
Cyfweliadau/Trafodaethau eglurhaol gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer	Canol Mai 2020
Dyfarnu'r cytundeb a thrafodaethau cytundebol	Diwedd Mai 2020
Prynu'r caledwedd allweddol a'r gwasanaethau	Mehafin–Awst 2020
Sefydlu'r datblygiad a throsglwyddo data	Mai 2020–Ionawr 2022
Tendr y wefan yn fyw – ateb unrhyw gwestiynau a dderbynnir drwy'r system GwerthwchiGymru	Medi 2020
Dyddiad cau ar gyfer tendr y wefan	Tachwedd 2020
Mudo o ONIX 2.1 i ONIX 3.0	Tachwedd 2020
Dyfarnu tendr y wefan	Rhagfyr 2020
Trosglwyddiad posibl o Gwales Admin i Reolwr Cynnyrch newydd	Ionawr 2021
Trosglwyddo'r system ariannol	1 Ebrill 2021
Camau profi'r data	Ionawr 2022
Dyddiad gweithredu terfynol	Chwefror 2022